COFNODION SEITHFED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES

Cynhaliwyd yn rhithwir ddydd Mercher 22 Chwefror 2023 trwy gyfrwng Gweminar Zoom mewn sawl lleoliad

Yn bresennol:
Swyddogion - Nia Parry (Llywydd), John Graystone (Cadeirydd), Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Clerc / Ysgrifennydd y Cwmni) (4).

Aelodau Unigol - Mark Baines, Anthony Cope, Andrea Davies, Victory Ezeofor, Salamatu Fada, Christopher Franks, Christina Gallagher, Adele Gatt, Cath Hicks, Jayne Ireland, Jane Johnston, Jenni Jones-Annetts, Michelle Kerswell, Nicole Kinnaird, Betty Mason, Sarah Murphy, Stephen Nicholls, Tim Palazon, Graham Price, Martyn Reed, Donna Ridler, Susan Roberts, Jan Tiley (23).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Canghennau - Cathy Clark (Oakdale a'r Coed-duon), Bill Griffiths (Llanelli), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Marilyn Thomas (Caerffili) (4).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Mudiadau Cyswllt a Phartner - Marion Burke (Wales TUC Cymru), Dona Lewis (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol), David Smith (Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru) (3).

Cynrychiolydd cangen - Jenny Hibbert (Cangen Caerffili) (1).

Siaradwyr, Cefnogwyr, Staff ac Eraill yn bresennol - Anthony Phillips (Archwilydd, Baker Knoyle Chartered Accountants Cyf.); Iola Llwyd a Steffan Wiliam (cyfieithwyr ar y pryd); Linda Bruce a Lydia Jones (cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain); Sarah K Jones, Rhydian Williams (tîm technegol y staff); Nahla Alhasan, Anna Knight, Abena Louisa D B St Bartholomew-Brown Morgan, Gareth Roberts (dysgwyr yn bresennol); Monika Frackowiak, Ann Herbert, Wendy Hopkins, Gareth John, Angela Morelli, Florence Walkey, Sian Williams, Sarah Williams-Crouch (staff yn bresennol); Rhianydd Williams (siaradwr gwadd) (20).

Ymddiheuriadau:
Leanne Andreadis, Tobias Andrews, Paul Charlton, Caroline Davies, Amanda Doyle, Sam Emmett, Judith Evans, David Girdler, Adrian Heathfield, Matthew Lloyd, Siôn Aled Owen, Tim Owen, David Christopher Owens, Margaret Ware (Cangen Caerffili) (14).

Eitem	ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2023 A DIGWYDDIAD 'UNDEBAU LLAFUR AC ADDYSG UNDEBAU LLAFUR YN YR 21AIN GANRIF'
1.	**Cyflwyniad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)** Croesawodd Nia Parry bawb i'r cyfarfod, a gynhaliwyd yn rhithwir unwaith eto ar ffurf Gweminar Zoom. Esboniodd yr opsiynau a oedd ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd gan fod dau gyfieithydd ar gael (Cymraeg <> Saesneg), bod cyfieithwyr laith Arwyddion Prydain yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf, a sut i godi cwestiynau neu bwyntiau yn ystod y cyfarfod. Byddai pleidleisio'n digwydd trwy bleidlais fyw ar y sgrin, a byddai arwydd o'r canlyniadau'n cael ei gyflwyno'n syth ar y sgrin. Roedd y ddarpariaeth yn y cyfansoddiad ar gyfer pleidleisio trwy ddirprwy yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni eisoes wedi derbyn 6 phleidlais ddilys ymlaen llaw gan aelodau: byddai'r rhain yn cael eu bwrw'n briodol a niferoedd terfynol y pleidleisiau'n cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod.
2.	**Cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol: y newyddion diweddaraf am gyflawniadau yn gysylltiedig â'r cynnig y cytunwyd iddo yno; a chyflwyno Cynllun Strategol newydd Addysg Oedolion Cymru am 2023-2026** Cafodd cofnodion drafft chweched CCB Addysg Oedolion Cymru (AOC), a gynhaliwyd yn rhithwir ar 8 Ebrill 2022, eu cymeradwyo fel cofnod cywir (43 o blaid, gydag 1 yn atal ei bleidlais). O ran y cynnig i osod diffibrilwyr y cytunwyd arno yno, roedd dogfen yn amlinellu'r camau dilynol wedi'i dosbarthu gyda phapurau'r CCB. Roedd peiriannau o'r fath wedi'u gosod yn y ddwy swyddfa ym mherchenogaeth y Sefydliad (Bangor a Chaerdydd), gyda pheiriannau wedi'u gosod hefyd mewn 4 o'r 7 swyddfa dan brydles a thrafodaethau'n mynd rhagddynt gyda pherchnogion y 3 eiddo arall. Roedd hyfforddiant i staff ac adnoddau ar-lein rhyngweithiol ar ddefnyddio diffibrilwyr yn cyd-fynd â hyn i gyd. Yna, rhoddodd Kathryn Robson uchafbwyntiau o'r Cynllun Strategol newydd, a luniwyd yn derfynol yn dilyn ymgynghori mewnol ac allanol. Roedd yn cynnwys gweledigaeth y Sefydliad – 'creu cymdeithasau iach a llewyrchus trwy ddysgu oedolion yn y gymuned' – a'i genhadaeth, a'i dri nod: galluogi'r ystod ehangaf posibl o ddysgwyr i lwyddo, datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol a newydd, a datblygu sefyllfa AOC fel y prif ddarparwr dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.
3.	**Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf** Cyfeiriodd John Graystone at y sefyllfa economaidd anodd yr oedd llawer o bobl yn ei hwynebu ar hyn o bryd, a sut roedd Addysg Oedolion Cymru yn ymateb trwy fuddsoddi rhywfaint o'i gyllid wrth gefn mewn cyrsiau a chymorth pellach i'w ddysgwyr, gan gynnwys ceiswyr lloches.

	Roedd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), y soniodd amdano yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf, bellach yn ymffurfio. Roedd Addysg Oedolion Cymru wedi gwneud popeth yn ei rym i sicrhau bod dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu gydol oes yn cael eu priod statws ynddo. Gan fod Kathryn Robson yn aelod o grwpiau paratoi perthnasol, roedd AOC mewn sefyllfa ddelfrydol i gyfleu mai ef oedd y corff naturiol i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol a allai fod ar gael yn y meysydd hynny. Roedd John Graystone yn hyderu y byddai cyfleu'n hunain fel y corff cenedlaethol i symud agenda feiddgar Llywodraeth Cymru ym maes bod yn 'genedl ail gyfle', fel y dywedodd y Gweinidog Addysg, yn ei blaen yn talu ar ei ganfed - ond roedd angen i ni gynnal y pwysau ar CTER er mwyn cyflawni'r nod hwnnw. Mynegodd ei ddiolchgarwch i staff, dysgwyr ac aelodau'r Cyngor am eu hymrwymiad a chanmolodd y gwaith pwysig oedd yn cael ei gyflawni gan y Sefydliad ym meysydd cynaliadwyedd ac ymrwymiad i'r Gymraeg. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod.
4.	**Trosolwg y Prif Weithredwr o waith y flwyddyn, 2022/23** Dechreuodd Kathryn Robson trwy gydnabod y gwaith a wnaed gan diwtoriaid, staff cymorth, y Cyngor, partneriaid ac aelodau i wneud dysgu'n hygyrch i gynifer o bobl yng Nghymru. Roedd dros 5,500 o ddysgwyr wedi'u haddysgu hyd yn hyn yn y flwyddyn academaidd hon, a gallai fod angen defnyddio ein harian ein hunain i ateb y galw am gyrsiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bu mwy o ffocws ar ein presenoldeb rhyngwladol hefyd, gyda cheisiadau i *Taith*, sef rhaglen gyfnewid ryngwladol Cymru ar gyfer addysg, ac i'r Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Addysg Oedolion. Gartref yn y cyfamser, roedd ehangu addysg yn ein Hwb Dysgu ym Mhort Talbot yn parhau, gyda Chaffi Trwsio yn ddatblygiad newydd yno. Roedd llwyddiannau'n cynnwys ehangu cynllun y Cyfrifon Dysgu Personol, gan alluogi pobl mewn gwaith i droi at raglenni dysgu hyblyg er mwyn newid gyrfa; estyniad i'r Gronfa Lloches, Mewnfudo ac Integreiddio (AMIF) a ariennir trwy'r Swyddfa Gartref; ehangu mawr yn y dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) a gynhaliwyd; a mentrau rhifedd/mathemateg newydd a ariannwyd trwy raglen *Multiply*. Hefyd, helpom i lunio polisi i gefnogi darparu cludiant cyhoeddus am ddim i ffoaduriaid yng Nghymru. O ran yr heriau oedd yn parhau, cafodd mentrau eiriolaeth niferus o fewn yr agenda amrywiaeth a chynhwysiant eang sylw mewn agweddau ar waith AOC. Roedd enghreifftiau'n cynnwys rhaglen 'Cymru sy'n falch o'r mislif' i ddod â thlodi a stigma'r mislif i ben; rhoi cynllun gweithredu LHDTC+ ar waith; aelodaeth o Climate Cymru fel rhan o'n hymgyrch cynaliadwyedd; dod yn sefydliad ystyriol o drawma; a hyrwyddo Cymru wrth-hiliol, trwy gydweithredu'n ddiweddar â'r Black Leadership Group. Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn ffurfiol gan y cyfarfod.

5.	**Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2021/22 Addysg Oedolion Cymru** Siaradodd Stephen Nicholls (Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau) ynghylch y wybodaeth ariannol gryno a ddosbarthwyd gyda phapurau'r CCB. Roedd yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol archwiliedig llawn, a gymeradwywyd gan y Cyngor, ar gael ar wefan y Sefydliad. Bodlonodd y Sefydliad bob un o'i chwe amcan ariannol, er gwaethaf heriau Covid-19 a thueddiadau economaidd y byd. Roedd y ddarpariaeth cyflwyno addysg yn 83% - ychydig yn fyr o'r targed o 85% y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn. Yn cyd-fynd â gwarged o £44,000 ar weithgareddau cyfan y flwyddyn yr oedd gostyngiad sylweddol yn y colledion enwol yn berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Golygai dull darbodus parhaus fod hylifedd yn parhau'n gadarn, gyda £5.9 miliwn mewn daliadau arian parod a chyfwerth ag arian parod, ar ddiwedd y flwyddyn. Dangosodd adroddiadau hyd yn hyn ar gyfer blwyddyn 2022/23 fod pobl yn dychwelyd at fwy o addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, yr hyn oedd yn galonogol. Cadarnhaodd Anthony Phillips, ar ran yr archwilwyr Baker Knoyle Chartered Accountants Cyf., fod eu hadroddiad (tt. 22-24 o fewn y ddogfen gyfan) yn ddiamod - yn gadarnhaol - unwaith eto, yn ei farn, a datganodd fod y ddogfen yn rhydd o gamfynegiant perthnasol. Dangosodd y crynodeb incwm a gwariant a'r fantolen iddi fod yn flwyddyn o ddigymhlethdod ac arferol yn ariannol o ran gweithgareddau'r Sefydliad. Eto, cydnabu gymorth Tîm Cyllid y Sefydliad â'r broses archwilio, a wnaeth gynnwys archwiliad ar wahân o ddata myfyrwyr gan Baker Knoyle. Cynigiodd y Llywydd fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022 yn cael eu derbyn. Cymeradwywyd hyn, gyda 48 pleidlais o blaid a dim yn erbyn, heb unrhyw bleidleisiau wedi'u hatal. Nodwyd y rhestr o aelodau presennol y Cyngor, a gynhwyswyd gyda phapurau'r CCB, bryd hynny hefyd.
6.	**Ailbenodi Baker Knoyle Chartered Accountants Cyf. yn archwilwyr – yn amodol ar broses dendro bob 5 mlynedd yr archwilydd allanol, cyn archwiliad blwyddyn ariannol 2022/23** Ac yntau'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, diolchodd Chris Franks i'w gyd-aelodau Pwyllgor am eu cyfraniadau. Dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi fwyfwy bwysigrwydd llywodraethu da a chyllid cadarn, a chredai fod y ddau'n cael eu cynrychioli'n dda yn y Sefydliad. Roedd yn ddiolchgar am waith caled Baker Knoyle Chartered Accountants Cyf. fel archwilwyr allanol, a mynegodd ddymuniadau da i Huw Baker ar ei ymddeoliad o'r cwmni. Hefyd, cyfeiriodd at ymdrechion y Tîm Cyllid, yr oedd eu safonau yr un mor uchel â safonau'r archwilwyr eu hunain. Cynigiodd ailbenodi'r archwilwyr, yn amodol ar broses dendro bob 5 mlynedd yr archwilydd allanol, a fyddai'n digwydd cyn cychwyn archwilio'r flwyddyn ariannol

	2022/23. Cymeradwywyd y cynnig hwn, gyda 48 pleidlais o blaid ac 1 bleidlais wedi'i hatal.
7.	**Adroddiadau gan ein cynrychiolwyr ar bedwar Llys Prifysgol** Rhoddodd yr eitem hon ar yr agenda wybod i aelodau am ddatblygiadau yn deillio o statws ffurfiol y Sefydliad yn Llysoedd prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Roedd adroddiadau ysgrifenedig byr wedi'u dosbarthu'n flaenorol. Rhoddwyd diweddariadau ar lafar ynghylch Caerdydd - a oedd wedi penderfynu dwyn bodolaeth y Llys i derfyn ffurfiol, felly cyfarfod Medi 2022 oedd y cyfarfod olaf erioed yn hanes ei Llys; ynghylch Aberystwyth; ac ynghylch Abertawe, yr oedd cynrychiolydd blaenorol Addysg Oedolion Cymru yn y Llys wedi rhoi'r gorau i'r rôl ar ddiwedd ei dymor 3 blynedd ac, felly, roedd rôl wag yno. Gwahoddodd y Clerc fynegiannau o ddiddordeb. Derbyniodd y CCB yr adroddiadau fel y'u cyflwynwyd.
8.	**Cynigion i'w Trafod** Cafwyd dau gynnig y tro hwn, fel a ganlyn: **Cynnig Arbennig Cyfansoddiadol A** Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn cymeradwyo'r ddau newid cysylltiedig a ganlyn i **Erthyglau Cymdeithasu** a **Gorchmynion Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau** Addysg Oedolion Cymru - dogfennau cyfansoddiadol y Sefydliad. Cred y byddant yn cynorthwyo i gynnig dilyniad i'w lywodraethiant a mwy o sefydlogrwydd mewn cyfnod o newid sylweddol ym maes addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r geiriad isod. Mae'r geiriau newydd i'w hychwanegu yn **mewn print bras, wedi'u tanlinellu**. Mae unrhyw eiriau y maent yn eu disodli yn y dogfennau cyfansoddiadol presennol ~~*mewn print italig gyda llinell trwyddynt*~~. A. Erthyglau Cymdeithasu: Erthygl 10.8 : "Bydd Llywodraethwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol neu ei ailbenodi. Fodd bynnag, ni chaiff Llywodraethwr sydd wedi gwasanaethu am ddau gyfnod olynol, o ba hyd bynnag, gael ei ailethol neu ei ailbenodi am drydydd cyfnod yn olynol, ond gellir ei ailethol neu ei ailbenodi ar ôl cyfnod ysbeidiol o **flwyddyn** (dileu'r geiriau presennol: ~~*ddwy flynedd*~~) o leiaf." B. Gorchmynion Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau: Gorchymyn Sefydlog rhif 21 : "Mae'r Cyngor, ar ddyddiad cymeradwyo'r Gorchmynion Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau diwygiedig hyn, yn cytuno â'r gweithdrefnau canlynol a fydd yn gweld hyd at ddeuddeg o bobl yn cael eu hethol a hyd at wyth o bobl yn cael eu penodi, fel y manylir yn erthygl 10.2. Bydd y Llywodraethwyr Etholedig a Phenodedig yn dal swydd am gyfnod o dair blynedd ac, os cânt eu hailethol neu eu hailbenodi, bydd y cyfryw Lywodraethwyr yn gwasanaethu am un cyfnod arall o dair blynedd. Fodd bynnag, caiff y Cyngor benodi Llywodraethwyr Penodedig am gyfnod o lai na thair blynedd, **a chaiff ymestyn cyfnod gwasanaeth uchafrifol Llywodraethwyr Etholedig neu Benodedig hyd at ddwy flynedd yn hwy,** os yw'n penderfynu gwneud hynny er pennaf les yr Elusen."

Cynigiwyd gan: Victory Ezeofor, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru
Eiliwyd gan: Dona Lewis, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru

[D.S. I gydymffurfio gyda Gorchymyn Sefydlog 12 ar Weithgareddau mewn CCBau a Chyfarfodydd Cyffredinol Arbennig, mae mwyafrif o 75% o'r bobl yn bresennol a gyda'r hawl i fynychu a phleidleisio mewn CCB yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cynnig sydd yn diwygio'r Erthyglau Cymdeithasu yn cael ei dderbyn yn briodol.]

Cyflwynwyd y cynnig gan Victory Ezeofor (llywodraethwr a chynrychiolydd rhanbarthol gogledd-orllewin Cymru) a oedd o'r farn bod y cynnig yn amserol ac yn angenrheidiol. Un ystyriaeth oedd y ffaith y byddai pump o'r aelodau Cyngor mwyaf profiadol yn cyrraedd uchafswm presennol eu tymhorau 6 mlynedd ar yr un pryd yng ngwanwyn 2023, ar ôl ymuno â'r Cyngor pan roddwyd enw Addysg Oedolion Cymru ar y sefydliad a oedd newydd uno. Dyna lawer iawn o wybodaeth ac arbenigedd ar y cyd i'w golli ar un tro a theimlai'r Cyngor y byddai cynnig ymestyn eu tymhorau er lles pennaf y Sefydliad. Cafodd y cynnig ei eilio'n ffurfiol gan Dona Lewis.

Cytunwyd i'r cynnig hwn fel a ganlyn, gan ragori ar y trothwy gofynnol o 75%:

O blaid: 45
Yn erbyn: 1
Atal pleidlais: 2

Roedd yr ail gynnig yn ymwneud â swyddogaeth Llywydd y Sefydliad, felly trosglwyddodd Nia Parry awenau'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon i John Graystone, fel Cadeirydd.

Cynnig Arferol 1

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn, mewn cydymffurfiaeth â Gorchymyn Sefydlog 26 yn ymwneud â Phenodiadau Mygedol yn y Sefydliad, yn penderfynu:

- ar ail-ethol Nia Parry fel Llywydd Addysg Oedolion Cymru am dymor arall o dair blynedd pan ddaw ei thymor cyntaf o'r fath i ben ar 26 Mawrth 2023.

Cynigiwyd gan: Jenni Jones-Annetts, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru
Eiliwyd gan: Jan Tiley, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru

Dywedodd Jenni Jones-Annetts pa mor briodol oedd hi bod rhywun enwog ym maes addysg oedolion yn y Gymraeg yn Llywydd ar y Sefydliad. Roedd Nia Parry wedi gweithio dramor fel tiwtor iaith hefyd, a bu'n ymgymryd â'i rôl fel Llywydd am dair blynedd erbyn hyn - a wnaeth gyd-daro yn union â'r pandemig. Roedd hi'n amlwg yn uchel ei pharch yn ei rôl fel cyflwynydd ac addysgwr: ar sail hynny, roedd yn lladmerydd pybyr dros bwysigrwydd dysgu gydol oes. Eiliodd Jan Tiley y cynnig gan ychwanegu, ar ôl mynd i ginio diweddar Gwobrau Inspire a arweiniwyd gan Nia, roedd hi'n amlwg yn llysgennad gwych ar ran y Sefydliad, gyda'i gwen gyson i'w gweld ym mhob digwyddiad yr oedd yn bresennol ynddynt.

Cytunwyd i'r cynnig hwn fel a ganlyn:

O blaid: 49
Yn erbyn: 0
Atal pleidlais: 0

9.	**Undebau Llafur ac Addysg Undebau Llafur yn yr 21ain Ganrif - cyflwyniadau** Dechreuodd ail ran y cyfarfod gan gydnabod a chynnal cyfnod o fyfyrio distaw er cof am dri o gydweithwyr AOC a fu farw'n ddiweddar. Daeth y newyddion dros nos am farwolaeth Terry Bishop, a fu'n gweithio i'r sefydliad am 19 o flynyddoedd fel aelod o'r tîm Addysg Undebau Llafur a'r Gweithle, yn swyddfa Glyn Ebwy/Blaenau'r Cymoedd yn ddiweddar. Bu'n byw yn Nhrenewydd, Cwm Rhymni, a bu'n gweithio i WEA De Cymru, WEA Cymru ac i'r Sefydliad dan ei enw presennol. Roedd ei hangerdd tuag at bwysigrwydd undebau i'w weld hefyd yn ei rôl fel cynrychiolydd staff yr undeb llafur cydnabyddedig, Unite, yn y Sefydliad. Yn ail, bu Clive James yn diwtor mewn addysg undebau llafur ers 2009, ar ôl ymddeol o fod yn swyddog amser llawn gydag undeb y GMB am flynyddoedd lawer. Addysgodd dros 2,000 o gynrychiolwyr Unite yn ystod ei flynyddoedd fel tiwtor, gan allu eu hysbrydoli â'i gred yng nghanologrwydd y mudiad llafur, a'i allu i newid bywyd aelodau undeb a thrawsnewid y cymunedau roeddent yn byw ynddynt. Ac yn drydydd, Clare Evans, o'n swyddfa yn y Drenewydd, Powys, a fu'n gweithio i AOC ers 2015, fel Gweinyddwr yn wreiddiol yn rhanbarth y de-orllewin a'r canolbarth cyn symud i fod yn rhan o'r tîm cymorth digidol yn ystod cyfnod Covid-19, gan roi cyngor ar-lein i ddysgwyr a staff. Gwelir colled pob un ohonynt am eu cyfraniadau unigol, arbennig, ac estynnwyd cydymdeimlad i'w teuluoedd a'u ffrindiau. Roedd gan AOC draddodiad hir o greu partneriaethau ag undebau llafur ym maes addysg: roedd ei wreiddiau yn Sefydliad Addysg y Gweithwyr (WEA) a Choleg Harlech yn golygu bod ei gysylltiadau â'r blaid lafur dros ganrif oed. I arddangos y sefyllfa gyfoes, bwriadwyd cyflwyno cyfraniad fideo wedi'i recordio ymlaen llawn gan Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol Wales TUC Cymru, ar 'Bwysigrwydd undebau llafur yn y byd heddiw'. Yn anffodus, cafwyd problemau technegol â sain y fideo ac ni fu modd i'w ddangos yn y cyfarfod. Yn hytrach, byddai'n cael ei roi ar wefan a sianel YouTube y Sefydliad i bobl ei wylio'n ddiweddarach. Y siaradwr nesaf oedd Marion Burke, Swyddog Polisi Wales TUC Cymru. Ar hyn o bryd, roedd yn arwain ei Wasanaeth Addysg ac roedd yn aelod o Gyngor Addysg Oedolion Cymru hefyd. Disgrifiodd Marion addysg undebau llafur a gweithio mewn partneriaeth ag AOC a phwysigrwydd gweithwyr oedd mewn undebau llafur cydnabyddedig – dyma'r union weithwyr yr oedd ein cymdeithas wedi dibynnu arnynt yn ystod pandemig Covid-19, er enghraifft. Siaradodd yn falch am y degau o filoedd o gynrychiolwyr y gweithle a hyfforddwyd trwy gynllun a chyrsiau sylfaen WULF (Cronfa Ddysgu Undebau Cymru), neu a addysgwyd fel cynrychiolwyr cydraddoldeb neu iechyd a diogelwch. Gan fod yr agenda werdd yn ehangu fyth, roedd nifer gynyddol o 'gynrychiolwyr gwyrdd' mewn gweithleoedd, wedi'u hyfforddi i adlewyrchu'r byd gwaith newydd. Dangosodd hyn pa mor ymatebol oedd y mudiad undebau llafur i newidiadau mewn normau gweithio a chymdeithas, a da oedd gweld gallu AOC i ymateb i newidiadau o'r fath hefyd yn ei gyrsiau.

	Diolchodd Marion i Betty Mason, pennaeth yr adran addysg undebau llafur yn AOC, a oedd yn ymddeol ar ddiwedd y mis ac yr oedd ei chyfraniadau dros flynyddoedd lawer wedi'u gwerthfawrogi'n fawr. Yn wir, roedd cysylltiadau niferus rhwng y TUC ac AOC, ac roedd cydweithredu hirdymor wedi dangos bod cymaint o ffactorau cyffredin: roedd y ddau sefydliad yn gyrff gwirfoddol, yn ddemocrataidd o ran eu strwythurau, ac yn gyrff aelodaeth. Daeth i ben trwy gyfeirio at yr adborth cadarnhaol a gafodd ar draws yr amrywiaeth o gyrsiau a ddarparwyd gan AOC, a pharodrwydd gweithwyr AOC i 'fynd y filltir ychwanegol' o ran y cymorth ychwanegol yr oedd ar ddysgwyr undebau llafur ei angen – ymrwymiad a olygai nad oedd neb yn cael eu gadael ar ôl. Rhianydd Williams oedd siaradwr olaf y bore. Hi oedd Swyddog Cydraddoldeb Polisi ac Ymgyrchu Wales TUC Cymru a defnyddiodd gyflwyniad PowerPoint i lywio'u hanerchiad ar rôl undebau llafur mewn ymgyrchoedd iechyd, lles a chydraddoldeb gweithleoedd. Gan fod 48 undeb llafur yn aelodau ohono a 400,000 o weithwyr mewn undebau llafur cydnabyddedig yng Nghymru, roedd gan Wales TUC Cymru ddylanwad enfawr o ran yr agenda cyfiawnder cymdeithasol i'w aelodau. Roedd mwy o undebwyr benywaidd na gwrywaidd yng Nghymru, gyda chyfran aelodau BAME o undebau llafur yn fwy na'u canran yn y boblogaeth yn gyffredinol. Disgrifiodd Rhianydd nifer o'r ymgyrchoedd a arweiniwyd gan Wales TUC Cymru. Ymgyrch hirsefydlog oedd ymgyrch ar y menopos – roedd hwn wedi dechrau gydag arolwg rhyw 8 blynedd yn gynt ac, yn wir, roedd Terry Bishop wedi gwneud gwaith clodwiw ar y mater hwn. Ymhlith y materion y lluniwyd pecynnau cymorth arnynt oedd addasiadau rhesymol gan gyflogwyr a hyblygrwydd o ran absenoldeb salwch posibl, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r peri-menopos, a mabwysiadwyd yr ymgyrch gan eraill, gan gynnwys y Blaid Lafur yng Nghymru. Roedd ymgyrchoedd eraill ar Weithwyr Hŷn, yn aml â chyfrifoldebau gofalu am eu rhieni neu am blant/plant eu plant; ar Ofalwyr, oedd â chyfrifoldebau mawr ochr yn ochr â'u gwaith â thâl, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol; ac ar Iechyd Meddwl yn y gweithle, lle'r oedd pwysau o ganlyniad i gontractau dim oriau neu fwlio yn fwyfwy cyffredin. Yna, roedd mentrau eraill gan Wales TUC Cymru megis ar Awtistiaeth yn y Gweithle, gan ddangos y sgiliau yr oedd gan bobl awtistig i'w cynnig i gyflogwyr; Anableddau Anweladwy a Namau Caffaeledig (a oedd yn cynnwys y menopos, oherwydd o dan rai amgylchiadau, roedd yn para'n ddigon hir i gael ei ddiffinio'n anabledd); a mentrau newydd a fyddai'n cael eu lansio cyn hir ar Gynllun 10 pwynt LHDTC+, ymgyrch Aflonyddu Rhywiol yn y gweithle, a Gwrth-hiliaeth yn y gweithle, bob un ohonynt â'u pecynnau cymorth eu hunain i gynorthwyo â gweithredu dilynol. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oedd deuoliaeth glir rhwng cyflogwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran eu parodrwydd i weithredu ar yr ymgyrchoedd hyn. Teimlai Rhianydd fod hynny'n gyffredinoli rhy eang a ffug, gan fod enghreifftiau da (e.e. yn y Post Brenhinol a Tesco) o gwmnïau preifat yn diwygio'u harferion hefyd. Yn fras, roedd bodolaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yng

	Nghymru yn golygu bod llwybr addas ar gael ar gyfer cydweithredu â chyflogwyr yn gyffredinol.
10.	**Diolch a Sylwadau i Gloi** Diolchodd Nia Parry i bawb am eu cyfraniad at y bore - yn siaradwyr, yn gyflwynwyr ac o ran y trefniadau technegol - ac am ei hailgadarnhau yn ei rôl fel Llywydd, a oedd yn gymaint o fraint iddi ei chyflawni.